# Iechyd a Diogelwch

## Adroddiad Blynyddol

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

2018/2019

Hysbysiad: Mae data 'Damweiniau Anafiad' y Sector Addysg Uwch wedi'i ddiweddaru ar 17 Ebrill 2023 i gywiro anghysondeb.

## CRYNODEB O'R PERFFORMIAD ALLWEDDOL

**69%**

Presenoldeb yn y sesiynau cynefino staff canolog

**CYNEFINO (CANOLOG) STAFF NEWYDD**

**21% islaw'r targed**

---

**DEFNYDDWYR CYFRIFIADUR**



**81%**

Cwblhau Hyfforddiant a Hunanasesiad

**1% yn uwch na'r targed**

---

**100%**

Cyngor y Brifysgol

**83%**

Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol

**CYDYMFFURFIO Â SAFONAU ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH UCEA**

**Gwelliant Blynyddol**

---

**DAMWEINIAU A ARWEINIODD AT ANAFIADAU I STAFF**



**21**

damwain i bob 1000 o weithwyr

**Tebyg i'r Sector**

---



**ABSENOLDEB SALWCH YMYSG STAFF**

**5.47**

diwrnod ar goll i bob gweithiwr Cyfwerth Amser Llawn

**0.53 diwrnod yn is na'r Sector AU (17/18)**

---

Cyhoeddwyd y Fersiwn 30ain Hydref 2019
Llywodraethu a Chydymffurfio (Iechyd a Diogelwch)
Gwasanaethau Corfforaethol
www.bangor.ac.uk/hss

| **Mynegai** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| | Y Dangosyddion Perfformiad: Crynodeb | |
| 1. | Y Polisïau a'r Dogfennau Allweddol | 2 |
| 2. | Archwiliadau, Adolygiadau a Dadansoddiad | 2 |
| 3. | Y Camau Gorfodi ac Ymweliadau'r Arolygiaeth Statudol | 6 |
| 4. | Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch | 7 |
| 5. | Damweiniau a Digwyddiadau | 9 |
| 6. | Absenoldeb Salwch Ymysg Staff | 12 |
| 7. | Larymau Tân yn Canu | 16 |
| 8. | Achosion Sifil i Hawlio Iawndal (sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch) | 17 |
| 9. | Ystadegau'r Wefan | 17 |

## 1. POLISÏAU A DOGFENNAU ALLWEDDOL

Crynodeb o ddogfennau iechyd a diogelwch sefydliadol 'allweddol' newydd, diwygiedig ac a ddiddymwyd, a gafodd eu cyflwyno, eu dileu neu eu haddasu yn ystod y flwyddyn.

### • POLISÏAU NEWYDD A DIWYGIEDIG

Ni chyflwynwyd unrhyw bolisïau newydd yn 2018/19.

Adolygwyd a diweddarwyd y polisïau canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol
- Dogfen Cyfrifoldebau a Threfniadau Iechyd a Diogelwch y Brifysgol (yn cefnogi'r Polisi Iechyd a Diogelwch)
- Asesiad Risg
- Defnyddio Laser yn Ddiogel
- Diogelwch Offer Trydanol
- Gweithio y Tu Allan i Oriau Arferol
- Defnyddio Awyrennau Bach Di-griw (Dronau)*
- Mamau Newydd a Beichiog
- Diogelwch Gyrwyr a Cherbydau

**Tynnir sylw at y ffaith bod y Polisi 'Dronau' wedi'i ddiwygio cyn yr amserlen adolygu polisïau i hwyluso'r gallu i'w defnyddio fwy mewn ymchwil ac addysgu. Mae hyn yn adlewyrchu llacio ar ddehongliad yr Awdurdod Hedfan Sifil o 'weithgarwch masnachol'.*

### • Y POLISÏAU A DDIDDYMWYD

Mae'r drefn o herio'r angen am bob polisi wedi parhau, a diddymwyd y safonau polisi iechyd a diogelwch canlynol:

- Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau
- Ymchwilio i Ddamweiniau a Digwyddiadau
- Cyfarpar Gwarchod Personol
- Gwybodaeth a Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch

Diddymwyd yn ffurfiol y polisi ar Gamddefnyddio Alcohol a Sylweddau, oherwydd fe'i disodlwyd gan weithdrefnau Adnoddau Dynol (AD) a chyngor asesu risg cyffredinol.

Drwy fân ychwanegiadau at Bolisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol: Cyfrifoldebau a Threfniadau, roedd yn bosibl dileu tri pholisi ychwanegol. Sef, Damweiniau a Digwyddiadau, Cyfarpar Gwarchod Personol a Hyfforddiant. Mae'r holl wybodaeth berthnasol a chefnogol ar gael yn electronig, gydag ymrwymiadau polisi bellach wedi'u cynnwys ym Mhrif Bolisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol.

### • DOGFENNAU IECHYD A DIOGELWCH DIWYGIEDIG Y COLEGAU / Y GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Yn ystod 2018/19 parhaodd y gwaith i 'ymgyfarwyddo' â'r newidiadau gweithdrefnol yn deillio o ad-drefnu a rhesymoli. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r Coleg Gwyddorau Dynol, Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a Busnes a Choleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg i adolygu a chynhyrchu dogfennau iechyd a diogelwch allweddol. Mae tair dogfen graidd (Polisi Iechyd a Diogelwch y Coleg, Llawlyfr Iechyd a Diogelwch Staff a Myfyrwyr y Coleg ac Asesiad Risg Cyffredinol y Coleg) bellach yn nodi risgiau iechyd a diogelwch cyffredinol ac unigryw sy'n gysylltiedig â phob Coleg.

Mae'r un broses wedi cychwyn ar gyfer y Gwasanaethau Proffesiynol.

### • ASESIADAU RISG ORGANEBAU A ADDASWYD YN ENETIG (GMO)

Gwnaed newidiadau o ran trefn ac arddull i Asesiadau Risg GMO, i fynd i'r afael ag argymhellion a wnaed gan Arolygiaeth Microbiolegol a Biotechnoleg Arbenigol yr HSE y flwyddyn flaenorol.

Mae pob Asesiad Risg GMO wedi cael ei adolygu wedi hynny.

## 2. ARCHWILIADAU, ADOLYGIADAU A DADANSODDIAD

Crynodeb o'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y Sefydliad, Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol ac agweddau rheoli risg.

### • ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH

Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'n llawn "Arweinyddiaeth a Rheolaeth Iechyd a Diogelwch mewn Sefydliadau Addysg Uwch" yr UCEA[1] ac USHA[2]. Mae'r Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch yn gwneud ymarfer pen bwrdd er mwyn ystyried a chloriannu perfformiad yn unol â phob un o feini prawf perfformiad y ddogfen ar gyfer lefelau'r Cyngor a'r Pwyllgor Gweithredu.

[1] Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau

[2] Cymdeithas Diogelwch ac Iechyd y Prifysgolion

| Cydymffurfio* â Safonau Rheoli Cenedlaethol | |
|---|---|
| **CYNGOR Y BRIFYSGOL** | **CYDYMFFURFIO 100% (17/17)** |
| **PWYLLGOR GWEITHREDU'R BRIFYSGOL** | **CYDYMFFURFIO 83% (25/30)** |

Adroddir ar y drydedd haen reoli, Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol, yn Adroddiad Blynyddol 2020/21.

**Mae cydymffurfio'n cyfeirio, ar y cam hwn, at allu tystio bod systemau ar waith i ddangos bod y 'gweithredu' a nodwyd yn cael ei gyflawni. Efallai y bydd gwelliannau sicrhau ansawdd pellach yn bosibl mewn rhai achosion.*

- **AR LEFEL Y BRIFYSGOL: DANGOSYDDION RHEOLI RISG**

**Mae'r perfformiad cyffredinol ar gyfer y dangosyddion risg allweddol yn dangos gwelliant cyson.** Aseswyd y peryglon a'r risgiau canlynol ledled y Brifysgol yn ansoddol i nodi'r perygl a oedd yn weddill o ddod i gysylltiad â risg.

| PERYGL / RISG / THEMA | Y Polisi/ Dog. | Profiad o Risg | Y Prif Nodiadau: Medi 2019 |
|---|---|---|---|
| Asbestos | G/A | L/M | Mae angen diweddaru'r Polisi a'r Cynllun |
| Cwmnïau Cysylltiedig | G | L | Adolygwyd yn 2019, dim amlygiad iechyd a diogelwch Prifysgol sylweddol |
| Plant ar y Campws | G | L/M | Ystyriaeth bellach gan Ysgolion / Adrannau i blant mewn digwyddiadau |
| Rheoli Contractwyr | G/A | M | Mae angen gwella'r modd y rhoddir trefniadau cyfredol ar waith |
| COSHH - Cyfryngau Biolegol (HG2,3 a GM2) | G | L | Rheolaeth dda'n amlwg. Mae gweithgarwch yn y maes hwn yn parhau i gynyddu |
| COSHH - Cemegau mewn labordai | G | L/M | Mae angen mwy o hyfforddiant ar COSHH |
| Cyfrifiaduron (OSA) | G | L | Cydymffurfio'n gwella, fesul adroddiad DPA(t) targed |
| Anabledd - Iechyd a Diogelwch + Argyfwng | G | L | Trefniadau da ar waith i gefnogi |
| Diogelwch Trydanol - Gosodwaith | G | L | Archwiliad a Phrofion bob 5 mlynedd |
| Diogelwch Trydanol - Offer Cludadwy | G | L/M | Lefelau cydymffurfio'n gwella ar draws y sefydliad |
| Gwaith Maes (Myfyrwyr a Staff) | G | L/M | Angen adolygu ymchwil cymdeithasol / pobl |
| Diogelwch Tân (Risg i Fywyd) | G | L | Cynhaliwyd Asesiadau Risg yn ddiweddar |
| Diogelwch Nwy | G | L/M | Mae diffyg llwybr dogfennau y gellir ei archwilio. |
| Laser ac Uwch Fioled (UV) - ymbelydredd anïoneiddiol | G | L | Adolygwyd y Polisi Laser. Darparwyd hyfforddiant ychwanegol. UV i'w adolygu 19/20 |
| Cyhyrysgerbydol (codi a chario) | G | M | Problemau hysbys gyda Staff Llaw. Adolygiad ar y gweill |
| Gweithio a theithio dramor (gan gynnwys Lleoliadau Myfyrwyr) | G | L | Mae dal angen cysylltu prynu siwrneiau ag yswiriant/ asesiadau risg |
| Rheoli Cerddwyr a Thraffig | A | M | Mae angen adolygu a gwneud gwelliannau |
| Ymbelydredd - Radon | G | L | Rheolyddion ac Asesiadau Risg ar waith |
| Ymbelydredd - Ffynonellau Agored ac wedi'u Selio | G | L | System dda ar waith. Arolygwyd yn allanol |
| Ymbelydredd - Pelydr X (risg i bobl) | G | L | Systemau da yn amlwg. Adolygwyd yn allanol |
| Llithro, Baglu a Chwympo (allanol) | P | L/M | Arolygwyd yn rhannol, arolygon pellach yn 19/20. Blaenoriaethu gwaith adfer. Risg uchel **o** ddwyn achos **sifil** yn parhau |
| Gweithgarwch dan Arweiniad Undeb y Myfyrwyr | G | L | Lefel dda o reolaeth yn dal i fod yn amlwg. Archwiliwyd 2018 |
| Diogelwch Gyrwyr a Cherbydau | G | M | Mae diffygion o hyd o ran cadw cofnodion |
| Diogelwch Dŵr (Rheoli Clefyd y Lleng Filwyr) | A | L/M | Polisi'r Brifysgol bellach yn ddiffygiol. Mae angen diwygio gweithdrefnau'r Coleg/Adran |

ALLWEDD

| | |
|---|---|
| G: Gweithdrefnau da ar waith | **L:** Perygl isel o risg |
| G/A: Mae angen gwella agweddau ar weithdrefnau | **L/M**: Amlygiad yn isel ond mae angen gwaith |
| A: Gweithdrefnau ansawdd cyfartalog (mae angen gwelliannau mawr) | **M:** Perygl canolig o risg |
| P: Gweithdrefnau cyfyngedig / dim gweithdrefnau clir nac addas (mae angen gwelliannau brys) | **H:** Perygl uwch o risg |

***Nodyn 1**: Mae'r uchod yn ddangosyddion a gymerwyd o'r Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (Awst) 2019,*

*sy'n werthusiad ansoddol parhaus o Feysydd Perygl a Risg c.40 Uchaf y Brifysgol.*

- **CRYNODEB BLYNYDDOL COLEGAU/ GWASANAETHAU O BERFFORMIAD (HUNANGLORIANNU)**

Yn hanesyddol, gofynnwyd i bob Coleg ac Adran (Gwasanaeth Proffesiynol) lenwi Holiadur Hunangloriannu blynyddol. Ailgyflwynwyd yr ymarfer hwn ar gyfer 2018/19, ar ôl ei ohirio am ddwy flynedd i allu ad-drefnu.

Mae'r Hunangloriannu'n ceisio mesur perfformiad cyfredol ac yn cynnig cyfle i Golegau a Gwasanaethau dynnu sylw at agweddau sy'n peri pryder iddynt, gan nodi lle y gallai fod angen cymorth ychwanegol. Roedd cyfradd ymateb o 90% (gyda'r ddau na ymatebodd yn adlewyrchu un Gwasanaeth Proffesiynol yn dod i ben a nifer o endidau llai yn ei le).

Mae'r canlynol yn nodi'r lefel perfformiad:

| | Gofyniad / Cwestiwn | Perfformiad Cyffredinol |
|---|---|---|
| a | Polisi Iechyd a Diogelwch a Throsolwg o Asesiadau Risg ar waith ac wedi'u hadolygu | **DA** |
| b | Trefniadau Cyfathrebu / Ymgynghori | **DA** |
| c | Staff / Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch wedi'u penodi gyda thasgau Iechyd a Diogelwch penodol | **DA** |
| d | Y Deon / Cyfarwyddwr yn cymryd rhan mewn Ymweliadau neu Archwiliadau yn y Gweithle | **GWEDDOL** |
| e | Trefniadau ar gyfer darparu Gwybodaeth Iechyd a Diogelwch i Staff newydd ar waith (*mae rhoi tystiolaeth systematig yn anhawster cydnabyddedig) | **DA** |
| f | Trefniadau ar gyfer darparu Gwybodaeth Iechyd a Diogelwch i Fyfyrwyr newydd ar waith | **DA** |
| g | Trefniadau Rheoli ar gyfer Tasgau Iechyd a Diogelwch parhaus: | |
| | - Asesiadau DSE / Diogelwch Trydanol | **DA** |
| | - Rhoi gwybod am ddamwain | **DA** |
| | - Profion Larwm Tân / Driliau Tân | **DA** |
| | - Hysbysiadau Teithio Tramor | **DA** |
| | - Gwirio trwyddedau gyrru | **GWEDDOL** |

Mae hyn yn rhoi syniad o berfformiad ac yn dangos gwelliant sylweddol o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae angen gwneud ymdrech o hyd i wella'r modd y rhoddir tystiolaeth am weithdrefnau a'r modd y cânt eu dogfennu.

Mewn rhai achosion, mae gan y Coleg/Gwasanaeth Proffesiynol drefniadau 'allweddol' da ar waith, ond mae gwendidau cydnabyddedig mewn rhai o'u Hysgolion neu Unedau.

Bydd cefnogaeth yn parhau i gael ei darparu i Golegau a Gwasanaethau Proffesiynol yn ystod 2019/20 i wella a symleiddio systemau iechyd a diogelwch ymhellach.


- **TREFNIADAU RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH COLEGAU/ADRANNAU (ARCHWILIADAU)**

Ar gyfer dau is-gwmni, parhaodd y rhaglen o archwiliadau rheoli iechyd a diogelwch, gan ddefnyddio safonau a osodwyd gan Ganllawiau Arweinyddiaeth a Rheoli Iechyd a Diogelwch USHA / UCEA mewn Sefydliadau Addysg Uwch. Mae archwiliadau rheoli iechyd a diogelwch yn cynnwys adolygu dogfennau, ynghyd ag ymweliadau safle, cyfweliadau ac arolygiadau.

Yn ystod 2019/20 bydd Archwiliadau Rheoli yn ail-gychwyn ar gyfer Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol.

*Mae Adolygiadau Iechyd a Diogelwch sy'n ystyried Themâu (prif feysydd risg) yn ychwanegu at y rhaglen archwilio. Gall y rhain fod ar ffurf ymarferion bwrdd gwaith, arolygiadau neu gyfuniad o'r ddau.*

- **Y GANOLFAN RHEOLAETH (ARCHWILIAD)**

| | |
|---|---|
| **DANGOSIAD PERFFORMIAD** |  |

Canfuwyd bod trefniadau rheoli iechyd a diogelwch cyffredinol y Ganolfan Rheolaeth o Safon Dda (94%), a dim ond mân newidiadau oedd eu hangen i gyflawni Arfer Gorau.

I ddechrau, nodwyd nifer o gamau yn ymwneud â gweithdrefnau'r gegin; nodwyd rhai o'r rhain yn flaenorol gan Archwiliad Hylendid Bwyd a Safonau Cyngor Gwynedd. Ymatebodd y Staff Rheoli yn gadarnhaol i'r broses hon a chwblhawyd mwyafrif y camau gweithredu.

Perfformiad Rheolaeth Iechyd a Diogelwch

| | Sylfaenol | Arfer Da | Arfer Gorau |
|---|---|---|---|
| CYNLLUNIO | 100% | 100% | 67% |
| GWEITHREDU | 100% | 100% | 100% |
| GWIRIO | Amherthnasol | 80% | 100% |
| GWEITHREDU | Amherthnasol | 67% | Amherthnasol |

**Risgiau Thematig:**
Yn yr archwiliad, yn ogystal â'r trefniadau rheoli cyffredinol, ystyriwyd detholiad o risgiau thematig hefyd. Ar gyfer y Ganolfan Rheolaeth, y rhain oedd:

Cydymffurfio â Rhwymedigaethau Statudol

| Sylfaenol | Arfer Da | Arfer Gorau |
|---|---|---|
| 100% | 100% | 67% |

Diogelwch Bwyd a Chegin

| Sylfaenol | Arfer Da | Arfer Gorau |
|---|---|---|
| 100% | 80% | 25% |

Digwyddiadau a Hwylusir gan y Ganolfan

| Sylfaenol | Arfer Da | Arfer Gorau |
|---|---|---|
| 100% | 100% | 100% |

- **UNDEB (TRADING) CYF.**

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

Roedd trefniadau Undeb Trading ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch o safon dda, ac fe gafodd sgôr gyffredinol o 84% am "Arfer Gorau".

Dilynodd yr archwiliad fformat ychydig yn wahanol. Er y cynhaliwyd adolygiad o drefniadau rheoli iechyd a diogelwch cyffredinol, fel mewn archwiliadau eraill, aseswyd y trefniadau i reoli tasgau gweithredol craidd o ddydd i ddydd hefyd yn lle tri maes 'thematig' penodol.

Canfu'r archwiliad, er bod trefniadau rheoli iechyd a diogelwch ar waith ar draws y rhan fwyaf o feysydd, bod angen ffurfioli rhai a gwella cofnodion, er mwyn gallu rhoi gwell tystiolaeth o dasgau sydd wedi'u cwblhau. Roedd hyn yn cynnwys asesiad risg gweithredol yr oedd yn rhaid ei ddatblygu yn ystod y broses archwilio.

Dylid nodi bod y Rheolwr Gweithrediadau yn dibynnu'n fawr ar apwyntiadau tymhorol a rhan-amser, ac mae'r parhad cyfyngedig hwn yn ei gwneud hi'n anodd dirprwyo tasgau, sy'n aml yn arwain at y Rheolwr Gweithrediadau yn ceisio rheoli trefniadau iechyd a diogelwch yn unig.

Perfformiad Rheolaeth Iechyd a Diogelwch

| | Sylfaenol | Arfer Da | Arfer Gorau |
|---|---|---|---|
| CYNLLUNIO | 100% | 100% | 50% |
| GWEITHREDU | 100% | 100% | 100% |
| GWIRIO | Amherthnasol | 60% | 50% |
| GWEITHREDU | Amherthnasol | 33% | Amherthnasol |

Tasgau Gweithredol o ddydd i ddydd:
Aseswyd y trefniadau i reoli tasgau sy'n gysylltiedig â thasgau gweithredol craidd fel rhan o'r Archwiliad, er enghraifft y rhai sy'n ofynnol i reoli diogelwch tân, cymorth cyntaf a diogelwch bwyd. Gan na ellid gwahanu'r rhain ar draws y tair lefel perfformiad, cytunwyd i roi llwyddo/methu sylfaenol. Roedd hyn yn dangos cyfradd llwyddo o **72%**.

- **DILYNIANT: Archwiliadau'r Adrannau 2017/18**

Aeth Iechyd a Diogelwch ati yn sgil archwiliadau 2017/18 i gadarnhau bod y camau gweithredu a nodwyd yn ystod y broses archwilio wedi cael sylw / wedi eu hunioni. Y meysydd y mae hyn yn berthnasol iddynt oedd:

- Neuaddau Preswyl
- Y Ganolfan Addysg Ryngwladol
- Undeb y Myfyrwyr

Ni ddarganfuwyd unrhyw bryderon nodedig yn ystod y camau dilynol hyn, a chanmolir pob un am eu hymrwymiad parhaus i iechyd a diogelwch.

- **HYSBYSIADAU STATUDOL (DEUNYDD)**

Mae llawer o sylweddau, cyfryngau, cynhyrchion a deunyddiau a ddefnyddir yn y gwyddorau yn destun rheolaeth ddeddfwriaethol lem ac, mewn rhai achosion, mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i Swyddogion y Brifysgol ac Awdurdodau Statudol. Mae

rheolaethau deddfwriaethol Gwrthderfysgaeth, Arfau Cemegol a Rhagsylweddion Cyffuriau yn effeithio ar lawer o'r deunyddiau a restrir.

Datblygwyd y Gronfa Ddata Hysbysiadau Statudol i alluogi Colegau / Ysgolion / Gwasanaethau Proffesiynol i gadarnhau gofynion cyn prynu a / neu greu sylweddau o'r fath er mwyn cael y caniatâd perthnasol. Nodir bod defnydd y Brifysgol o ddeunyddiau 'cyfyngedig iawn' wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn 2018/19 cynhaliwyd dadansoddiad bwlch o'r gronfa ddata yn erbyn deddfwriaeth berthnasol a'u hatodlenni atodedig, a chadarnhawyd priodoldeb atodlenni'r Brifysgol. Gwneir adolygiad ac asesiad o gydymffurfiad â hysbysu, trwyddedu, lefelau stoc a rheolaethau deunyddiau yn yr atodlenni yn 2019/2020.

- **ADOLYGIAD O BERYGLON BIOLEGOL**

**DANGOSIAD PERFFORMIAD**



Cynhaliwyd arolygiad blynyddol o'r cyfleusterau HG2[3] fis Rhagfyr 2018.

Roedd cadw trefn yn broblem mewn rhai meysydd, ond gellid priodoli hyn i samplau ac offer yn cael eu gadael gan Academyddion a oedd yn gadael. Mae trefniadau bellach ar waith i 'blismona' yr agwedd hon yn well.

- **ADOLYGIAD RADON**

**DANGOSIAD PERFFORMIAD**



Yn 2018/19 cynhaliwyd adolygiad o'r holl ganlyniadau radon blaenorol i nodi adeiladau a allai, o ganlyniad i'r Rheoliadau Ymbelydredd ïoneiddio diwygiedig (IRR17) fod yn uwch na'r lefel radon gweithredu yn y gweithle (300 Bq $m^{-3}$ [ar gyfartaledd dros flwyddyn]).

Nodir bod gofynion ar gyfer monitro radon yn newid yn rheolaidd ac o'r herwydd byddant yn cael eu hail-werthuso fel mater o drefn i sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i gydymffurfio ac yn dilyn arfer gorau.

Canfuwyd bod yr holl fesuriadau a wnaed yn 2018/19 yn is na lefelau gweithredu radon. Bydd lefelau radon yn yr adeiladau (perthnasol) sy'n weddill yn cael eu mesur yn 2019/20.

- **DARPARWR YSWIRIANT TEITHIO TRAMOR**

Cynhaliwyd adolygiad o'r cyngor teithio tramor a chefnogaeth frys gritigol, a ddarperir fel rhan o yswiriant teithio'r Brifysgol. Roedd hyn yn dilyn UMAL (yswirwyr y Brifysgol), yn penodi darparwyr amgen ar gyfer gwasanaethau meddygol a diogelwch / ymgynghorol dramor.

Mae'r gwasanaeth ymgynghorol yn y wlad cyn teithio yn hanfodol i alluogi teithio a gweithio'n ddiogel a llwyddiannus dramor. Mae hyn yn arbennig o wir am ymchwil yn y 'maes' ac ar gyfer teithio a gwaith i ranbarthau a allai fod yn broblemus yn y byd. Cadarnheir bod gan Staff a Myfyrwyr Prifysgol Bangor bellach fynediad at wybodaeth deithio dramor gyfoes a manwl.

Atgoffir staff a myfyrwyr yn rheolaidd i asesu gwybodaeth am iechyd a diogelwch teithio dramor, ac i lenwi'r Ffurflen Yswiriant Teithio ac Asesu Risg ar-lein. Mae anawsterau'n parhau gyda phlismona'r agwedd hon ar deithio dramor gan nad oes cysylltiad gweithdrefnol na systematig o hyd rhwng Prynu Teithio Tramor, ac yna sicrhau Yswiriant Teithio Busnes y Brifysgol (ac asesiad risg teithio dramor). Mae hwn yn bwynt gweithredu heb ei gyflawni ar ôl Archwiliad Mewnol yn y gorffennol, ac mae'n ymwneud â systemau ariannol a chaffael a'r gallu i brynu teithio dramor gan sawl asiantaeth.

Mae teithio i fannau 'rhestredig' FCO (Swyddfa Dramor a Chymanwlad) yn parhau i fod dan reolaeth dda, ac mae angen cymeradwyaeth uwch Swyddog Prifysgol, lle bo hynny'n briodol.

## 3. Y CAMAU GORFODI A'R YMWELIADAU AROLYGU STATUDOL

Ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn y Brifysgol yn 2018/19. Ni chychwynnwyd unrhyw ymchwiliadau chwaith.

[3] "Grŵp Peryglon" Biolegol lefel 2

- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Ni chafwyd unrhyw ymweliadau ffurfiol na gohebiaeth gorfodi / cwyno gyda'r HSE yn ystod y flwyddyn. Nid oedd Ffi am Ymyriadau na Hysbysiadau.

- Gwasanaeth Tân ac Achub

Cafwyd nifer o arolygiadau statudol gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, gan ganolbwyntio'n bennaf ar adeiladau Gwyddonol a Phreswyl.

Gwnaed nifer o argymhellion yn ystod yr ymweliadau hyn, ac nid oedd yr un ohonynt yn arwyddocaol nac yn fater brys.

Hwylusir yr ymweliadau hyn gan y Gwasanaeth Eiddo a Champws, gyda Deiliaid Adeiladu lleol yn cymryd rhan ac yn darparu gwybodaeth am weithgarwch a deiliadaeth.

- Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwrthderfysgaeth Cymru

Archwiliodd arolygwr Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwrthderfysgaeth Cymru cyfleusterau perthnasol fis Rhagfyr 2018 i gadarnhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n ymwneud â defnyddio a storio deunyddiau ymbelydrol, eu diogelwch, a chael gwared arnynt. Cadarnhaodd yr arolygiad bod trefniadau da ar waith.

## 4. HYFFORDDIANT YM MAES IECHYD A DIOGELWCH

Cymerodd bron i 300 aelod staff ran mewn cyrsiau a sesiynau iechyd a diogelwch a ddarperir yn ganolog. Crynhoir y rhain yn y tabl nesaf.

Mewn sawl achos, ategir cyrsiau a hwylusir yn ganolog gan gyrsiau lleol ac allanol. Yn anffodus, **nid** yw'r rhain yn cael eu cofnodi ar y gronfa ddata hyfforddiant ganolog, ac felly nid oes dadansoddiad o berfformiad ar gael.

- **CYRSIAU HYFFORDDI IECHYD A DIOGELWCH CYFFREDINOL**


Yn 2018/19, darparwyd neu hwyluswyd y cyrsiau canlynol gan Iechyd a Diogelwch, Llywodraethu a Chydymffurfio (Gwasanaethau Corfforaethol):

| Blwyddyn | Nifer y cyrsiau/ Sesiynau | Y Staff/Myfyrwyr a fu'n cymryd rhan |
|---|---|---|
| 2018/19 | 45 | 291 |
| 2017/18 | 39 | 166 |
| 2016/17 | 67 | 299 |
| 2015/16 | 56 | 309[4] |
| 2014 | 100 | 579 |
| 2013 | 85 | 583 |
| 2012 | 106 | 719 |

Roedd yr hyfforddiant a roddwyd i'r staff yn cynnwys:

- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf
- IOSH Rheoli'n Ddiogel (hyfforddiant 4 diwrnod i Gydlynwyr Iechyd a Diogelwch, Swyddogion ac i Reolwyr ac Arweinwyr Cyrsiau)
- Sesiynau Cynefino Cyffredinol ar Iechyd a Diogelwch
- Marsial Tân ac Ymchwiliad Tân
- Asesydd Sgriniau Arddangos
- Gadael Adeilad yn Ddiogel (anabledd)
- Mynediad Labordy

- **SESIYNAU CYNEFINO CYFFREDINOL I AELODAU O'R STAFF**

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

*Mae Sesiynau Cynefino Cyffredinol y Staff yn ddangosydd perfformiad allweddol o ran Iechyd a Diogelwch Sefydliadol.*

**Targed:** Methwyd targed 2018/19 o 21%. Felly bydd y targed ar gyfer 2019/2020 a 2020/2021 yn aros ar 90%.

Ar hyn o bryd, gwahoddir mwyafrif yr aelodau newydd o'r staff i ddod i'r Diwrnod Cynefino canolog i'r staff, lle cânt wybodaeth iechyd a diogelwch sefydliadol. Mae'r gyfradd bresenoldeb yn y digwyddiad hwn o'i gymharu â chyfradd penodi Staff newydd (fel sy'n berthnasol) yn sail i'r DPA (targed).

[4] Yn 2015/16 trosglwyddwyd Hyfforddiant Asesu Sgriniau Arddangos (DSE)/Defnyddwyr Cyfrifiaduron ar-lein ac nid yw bellach yn cael ei gynnig fel cwrs hyfforddi wyneb yn wyneb e.e. roedd 137 o gyfranogwyr yn yr Hyfforddiant Defnyddwyr DSE yn 2014

| 90% oedd y targed ar gyfer 2018/19 | | |
|---|---|---|
| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** | **STATWS/ GWERTH** | **NODIADAU** |
| Canran y staff newydd a aeth i sesiwn gynefino iechyd a diogelwch ganolog y brifysgol (wedi gwahodd).[5] | **69%** **(21% islaw'r targed)** | **+6% ar berfformiad 17/18** |

***Sylwch**: Ni chaiff sesiynau cynefino iechyd a diogelwch mewnol (ar lefel Ysgol/Gwasanaethau/Grŵp Ymchwil) eu cofnodi'n ganolog ac felly ni chânt eu defnyddio ar hyn o bryd fel Dangosydd Perfformiad Allweddol sefydliadol.*

- **HYFFORDDIANT I DDEFNYDDWYR CYFRIFIADURON**

**DANGOSIAD PERFFORMIAD**




Mae hyfforddiant i ddefnyddwyr cyfrifiaduron (DSE) yn Ddangosydd Perfformiad Allweddol sefydliadol. Mae hyfforddiant o'r fath yn ofynnol dan y Rheoliadau Offer Sgrin Arddangos.

**Targed:** Cyflawnwyd targed 2018/19 o 80%.

| 80% oedd y targed ar gyfer 2018/19 | | |
|---|---|---|
| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** | **STATWS/ GWERTH** | **NODIADAU** |
| Canran Defnyddwyr Cyfrifiaduron (sgriniau arddangos) sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein a'r hunan-asesiad | **81%** 1% yn uwch na tharged 2018/19 | **Cynnydd o 24% ar berfformiad 17/18** --- Targed 2019/20 yw 85% |

Yn ystod 2018/19, bu i **495** aelod staff gwblhau'r hyfforddiant ar-lein i ddefnyddwyr cyfrifiadur (gan ddod â'r cyfanswm i 81% o'r defnyddwyr cyfrifiadur a amcangyfrifir sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant). Mae'r ffigwr hwn yn gynnydd o 24.6% ar y cyfanswm o 65% y llynedd.




Mae'r tabl isod yn dangos y % o 'ddefnyddwyr cyfrifiaduron' a gwblhaodd yr hunan-asesiadau (cydymffurfio) ym mhob Coleg, Ysgol a Gwasanaeth Proffesiynol.

| | |
|---|---|
| **Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes** | **76%** |
| Staff CyCDB | 100% |
| Ysgol Busnes Bangor | 85% |
| Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas | 57% |
| Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth | 80% |
| Y Gyfraith | 100% |
| Cerddoriaeth a'r Cyfryngau | 76% |
| Cymraeg | 67% |
| **Coleg Gwyddorau Dynol** | **72%** |
| Staff Coleg Gwyddorau Dynol | 95% |
| Addysg a Datblygiad Dynol | 45% |
| Gwyddorau Iechyd | 70% |
| Gwyddorau Meddygol | 95% |
| Seicoleg | 67% |
| Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer | 90% |
| **Coleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg** | **75%** |
| Staff CGAP | 91% |
| BioGyfansoddion | 91% |
| Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig | 61% |
| Gwyddorau Naturiol | 78% |
| Gwyddorau Eigion | 63% |
| **Gwasanaethau Proffesiynol** | **90%** |
| Canolfan Bedwyr | 91% |
| Gwasanaethau Masnachol | 100% |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 94% |
| Gwasanaethau Cyllid ac Ymchwil | 81% |
| Gwasanaethau TG | 100% |
| Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau | 94% |
| Marchnata, Recriwtio a Chyfathrebu | 98% |
| Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru | 70% |
| Celfyddydau Pontio | 100% |
| Gwasanaethau Eiddo a Champws | 52% |
| Gwasanaethau Myfyrwyr | 100% |
| Undeb y Myfyrwyr | 90% |

Mae Hyfforddiant Aseswyr OSA bellach wedi'i gwblhau ar gyfer yr holl Wasanaethau Proffesiynol ac Ysgolion newydd.

[5] Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys rhai grwpiau o staff llaw a chontractau tymor byr

- **CYMHWYSEDD**

Mae 'safonau hyfforddiant cymhwysedd' a argymhellir wedi'u sefydlu ar gyfer pob haen o uwch reolwyr ac ar gyfer eu prif Gydlynwyr, Swyddogion a Chynghorwyr Iechyd a Diogelwch. Mae'r canlynol yn dangos lefel perfformiad 2018/19 ar gyfer pob un:

| SWYDDOGAETH | AELOD / DEON / CYFARWYDDWR | CYDLYNYDD/ SWYDDOG IECHYD A DIOGELWCH |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWEITHREDU** (nad ydynt hefyd yn Ddeon/Cyfarwyddwr) | **33%** | **66%** |
| **COLEGAU** | **33%** | **100%** |
| **GWASANAETHAU PROFFESIYNOL*** | **45.43%** | **91%** |

**Gwasanaethau Proffesiynol fel ar ddechrau 2018/19.*


## 5. DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU

| **DANGOSIAD PERFFORMIAD** |  |
|---|---|


*Rhaid i bob Coleg, Ysgol a Gwasanaeth Proffesiynol sefydlu trefniadau lleol i dderbyn a chofnodi Ffurflenni Damweiniau a Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau. Fel rhan o'r broses hon, rhaid iddynt hefyd ymchwilio i ddigwyddiadau a chymryd camau pellach yn ôl yr angen; mewn achosion sy'n fwy difrifol, bydd staff Iechyd a Diogelwch canolog yn arwain unrhyw ymchwiliad.*

Yn ystod 2018/19 cafwyd 230 o adroddiadau ar ddigwyddiadau, ychydig yn uwch na 2017/18 *(228)*. Roedd 82 o'r adroddiadau hyn yn ymwneud ag 'anaf' i rywun (heb fod yn chwaraeon), roedd 128 yn ymwneud â damwain a fu bron â digwydd, sefyllfa beryglus neu arferion anniogel, tra oedd yr 20 arall yn adroddiadau am ddigwyddiadau meddygol (megis llewygu, salwch a chonfylsiynau).

Digwyddodd yr 82 anaf ar y safle a/neu yn ystod gweithgareddau dan arweiniad y brifysgol, i fyfyrwyr, staff, contractwyr ac ymwelwyr.




- **ANAFIADAU-DAMWEINIAU I STAFF A MYFYRWYR**




Yn 2018/19, nifer damweiniau i staff a myfyrwyr a achosodd anaf o ganlyniad i'w gwaith neu eu hastudiaethau yn y brifysgol, ac y rhoddwyd gwybod amdanynt, oedd **56** (*61 yn 2017/18*). O'r cyfanswm hwn, roedd 43 *(46 yn 17/18)* yn ddamweiniau'n ymwneud â staff a 13 (*15 yn 17/18*) yn ymwneud â myfyrwyr.

*Yn ychwanegol at adroddiadau anafiadau-damweiniau i staff/myfyrwyr, cafwyd **26** yn rhagor (17 yn 17/18) o adroddiadau am ddamweiniau a achosodd anafiadau i ymwelwyr a chontractwyr. Mân anafiadau oedd y rhain i gyd.*

- **ANAFIADAU MAWR**

Cafwyd un "anaf mawr" (yn ôl y diffiniad) yn ystod y flwyddyn, lle torrodd aelod staff arddwrn o ganlyniad i syrthio.


- **CYFRADD DAMWEINIAU ANAFIADAU (fesul 1000 mewn Risg)**

**Staff**

Y gymhareb damweiniau a achosodd anaf i staff yn 2018/19 oedd **21** o ddamweiniau i bob 1,000 o aelodau

staff[6], gostyngiad bychan o'r **22** i bob 1,000 a adroddwyd yn 2017/18. Y Gyfradd Genedlaethol yn 18/19 oedd **21.05**/ 1000.

Damweiniau a achosodd anafiadau
yn y Sector a Phrifysgol Bangor ar gyfartaledd i bob 1000 o **STAFF** (2010 – 2018/19)





| 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 27 | 27.4 | 16.4 | 15.2 | 21.3 | 22.4 | 16.5 | 22 | 21 |

**Myfyrwyr**

Yn 2018/19, bu **13** *(15 yn 17/18)* o ddamweiniau a achosodd anafiadau i fyfyrwyr o ganlyniad uniongyrchol i'w hastudiaethau yn y brifysgol. Roedd hyn yn gymhareb o **1.3** damwain fesul pob 1,000 o fyfyrwyr[7], sef gostyngiad ar y 1.5 a fu yn 17/18. Y Gyfradd Genedlaethol yn 18/19 oedd 2.9/1000.

Damweiniau a achosodd anafiadau yn y Sector a Phrifysgol Bangor ar gyfartaledd i bob 1000 o **FYFYRWYR** (2010 – 2018/19)




| 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.6 | 1.9 | 1 | 2 | 1 | 1.7 | 2.4 | 2.4 | 1.5 | 1.3 |

- **DAMWEINIAU ANGEN ADRODD ARNYNT (RIDDOR)**

Yn ystod 2018/19 bu **7** o ddamweiniau a digwyddiadau yr oedd rhaid adrodd amdanynt i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Roedd **pum** 'RIDDOR' yn ymwneud â **staff**, gyda **4** oherwydd eu bod yn absennol o'r gwaith am dros 7 niwrnod o ganlyniad i'w hanaf, a dioddefodd **1** arddwrn wedi torri (anaf mawr) o ganlyniad i godwm yn y gwaith.

Roedd y **2** adroddiad arall yn ymwneud ag **aelodau o'r cyhoedd** yn mynd i'r ysbyty o ganlyniad i'w hanaf (*llithrodd perfformiwr yn Pontio ar lawr gwlyb gan dorri braich),* a myfyriwr a agorodd ei figwrn a bu'n rhaid ei 'ludo' yn yr ysbyty.

Cyfradd digwyddiadau RIDDOR i staff AU yn 2018/19 oedd **1.21/1000** *(CALl wedi'i addasu)*. Cyfradd Prifysgol Bangor yn 2018/19 oedd **2.4/1000**; roedd yn 0/1000 yn 17/18. Cyfradd digwyddiadau RIDDOR i fyfyrwyr yn genedlaethol oedd **0.055/1000** yn 2018/19. Cyfradd ddiweddaraf y brifysgol yn 2018/19 oedd **0.1 / 1000** *(0.3 yn 17/18)*.

Yn hanesyddol mae cyfraddau RIDDOR y brifysgol yn amrywio'n fawr fel y gwelir isod:

| Blwyddyn | Staff | Myfyriwr | Ymwelwyr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 5 | 1 | 1 | **7** |
| 2017/18 | 0 | 3 | 0 | **3** |
| 2016/17 | 1 | 1 | 0 | **2** |
| 2015/16 | 4 | 1 | 0 | **5** |
| 2014 | 7 | 1 | 0 | **8** |
| 2013 | 3 | 1 | 1 | **5** |
| 2012 | 0 | 2 | 0 | **2** |
| 2011 | 3 | 0 | 0 | **3** |
| 2010 | 3 | 3 | 1 | **7** |
| 2009 | 10 | 0 | 2 | **12** |
| 2008 | 5 | 1 | 1 | **7** |
| 2007 | 3 | 2 | 0 | **5** |
| 2006 | 3 | 6 | 0 | **9** |

Roedd un adroddiad RIDDOR arall, heb ei gynnwys uchod, ar gyfer y Ganolfan Rheoli a Datblygu, is-gwmni sy'n eiddo llwyr i'r brifysgol.

Ni chafwyd **unrhyw** Afiechydon Galwedigaethol na Digwyddiadau Peryglus Adroddadwy yn 2018/19.


- **ACHOSION DAMWEINIAU (pob damwain)**

Roedd mwyafrif y **56** damwain a arweiniodd at anaf yn ymwneud â naill ai digwyddiad codi a chario (24 = 43%), rhywun yn cael ei daro gan rywbeth a oedd yn symud/syrthio (5 = 9%); rhywun yn taro rhywbeth

[6] Ar sail cyfrif o 2,044 o aelodau staff yn ystod y flwyddyn

[7] Wedi ei seilio ar 10,123 o fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn


sefydlog (3 = 5%) neu lithro, baglu neu syrthio (18 = 32%); 6 arall.




- **DAMWEINIAU/DIGWYDDIADAU A ACHOSODD I STAFF GOLLI AMSER O'R GWAITH**

Rhoddwyd gwybod am gyfanswm o **8** digwyddiad a achosodd i staff golli amser yn 2018/19, gan arwain at golli **126** diwrnod gwaith.

Cyfradd achosion colli amser y brifysgol yw **4** i bob 1000 o weithwyr (nifer y bobl), cynnydd ar **0.5**/1000 yn 17/18. Roedd pump o'r digwyddiadau hyn yn gysylltiedig â llithro a baglu yn y gwaith a thri o ganlyniad i weithgareddau codi a symud pethau.





- **DIGWYDDIADAU'N YMWNEUD Â CHWARAEON**

Yn ogystal â'r adroddiadau am 148 o ddigwyddiadau na achosodd anafiadau, derbyniwyd **97** adroddiad am ddigwyddiadau a oedd yn ymwneud â chwaraeon (gweithgareddau anacademaidd), yn bennaf am anafiadau sy'n digwydd yn anochel wrth chwarae rhai chwaraeon.


- **DIGWYDDIADAU DRAMOR A THEITHIO DRAMOR**

Yn ystod 2018/19 bu **1,545** o deithiau tramor yn ymwneud â'r brifysgol gan staff/myfyrwyr a gofnodwyd ar y gronfa ddata yswiriant ganolog. Mae hyn yn <u>ostyngiad</u> o 14% ar y 1,797 o 'deithiau' tramor a gofnodwyd yn 17/18.




Gwnaed 10 o 'hawliadau yswiriant' am deithiau tramor yn ystod y flwyddyn.

- Roedd 4 yn ymwneud â chanslo cyn teithio (gan gynnwys afiechyd yn atal teithio)
- Derbyniwyd 6 hawliad am faterion meddygol tra dramor (2 anaf, 4 salwch)
- Roedd y ddau anaf i fyfyrwyr, un yn ymwneud â thriniaeth ddeintyddol yn dilyn cwymp oddi ar feic a'r ail am fân driniaeth yn dilyn syrthio wrth redeg.




- **DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU YN YMWNEUD Â CHERBYDAU**

<u>Cerbydau Llogi</u>

**Nid yw** cyfraddau digwyddiadau yn ôl milltiroedd a deithiwyd, neu ddyddiau llogi, ar gyfer cerbydau llogi am 2018/19 ar gael.

Rhagwelir y bydd data ar gael ar gyfer 2019/20. Mae'r diffyg gwybodaeth hwn yn ganlyniad i newidiadau yn y modd y mae'r prif gwmni llogi cerbydau yn cofnodi ac yn rhoi gwybod am filltiredd.

Cerbydau'r Brifysgol

Nid oes gan y brifysgol gofnod canolog o filltiroedd a deithiwyd gan ei cherbydau ei hun ac, o ganlyniad, ni ddarperir unrhyw ddata am berfformiad nac am ddamweiniau/digwyddiadau.

Fflyd Lwyd (Cerbydau staff a ddefnyddir ar fusnes)

Nid oes unrhyw ddata ar gael ar filltiroedd a deithiodd staff ar fusnes y brifysgol yn ystod y flwyddyn.

Damweiniau a digwyddiadau yn ymwneud â cherbydau

Yn 2018/19, roedd **5** hawliad am ddamweiniau'n ymwneud â cherbydau; roedd 4 o'r rhain yn ymwneud â mân ddigwyddiadau'n gysylltiedig â defnyddio cerbydau'r brifysgol (e.e. taro bolard) ac un yn ymwneud â fandaliaeth i gerbyd llogi tra ar fusnes cysylltiedig â'r brifysgol.

Ni chafwyd gwybod am **unrhyw** anafiadau'n ymwneud â cherbydau.

Cerbydau Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb y Myfyrwyr (UyM) yn endid cyfreithiol ar wahân. Mae ganddo yswirwyr gwahanol ac felly mae'n cadw ei ddata ei hun ar wahân. Mae UyM yn 'berchen' ar 7 cerbyd; 4 bws mini, 2 MPV ac un fan.

Ni roddwyd gwybod am **unrhyw** anafiadau o ganlyniad i ddamweiniau ffordd. Cafwyd un hawliad yswiriant pan glipiodd bws mini bostyn giât.


Cyfanswm y pellter a deithiodd cerbydau UyM yn 2018/19 oedd **55,145** o filltiroedd, cynnydd o 15% ar 2016/17 (47,923).

- **MONITRO SAFLEOEDD (ADEILADU A CHYNNAL A CHADW)**

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

Gostyngodd nifer yr arolygiadau iechyd a diogelwch mewnol ar waith adeiladu/ cynnal a chadw i **189** yn 2018/19, o'i gymharu â **258** y flwyddyn flaenorol.

Dangosodd canfyddiadau'r arolygiadau hynny welliant amlwg yn y safonau gweithredu a welwyd ar y safle.





O'r 189 o arolygiadau, roedd 65% ar arferion gweithio contractwyr, 15% ar staff cynnal a chadw'r brifysgol, 14% ar staff tiroedd ac roedd y 6% arall yn cyfeirio at weithrediad cyfleusterau.

Rhoddwyd 8 'rhybudd' (4%) ac roedd pob un yn ymwneud â chontractwyr. Roedd yr 1 achos difrifol yn ymwneud â chontractwr yn gweithio mewn mannau uchel heb reolaethau priodol.

## 6. ABSENOLDEB SALWCH YMYSG STAFF

| DANGOSYDD PERFFORMIAD (*dyddiau/CALI*) |  |
|---|---|

Mae'r gyfradd absenoldeb salwch drwodd a thro yn parhau i fod yn is na chyfartaledd cenedlaethol y sector, gan symud yn araf i fyny.





Yn 2018/19, collwyd 8,712 o ddyddiau gwaith o ganlyniad i absenoldeb salwch y rhoddwyd gwybod amdano. Mae hyn yn gyfystyr â chyfradd absenoldeb salwch ymysg y staff o oddeutu **5.47** diwrnod am bob

gweithiwr cyfwerth amser-llawn[8] (5.40 diwrnod yn 2017/18).

Y cyfartaledd yn y sector yn genedlaethol yn 2018/19 oedd 6.2 diwrnod. Adroddodd y CIPD mai lefel absenoldeb gweithwyr ar gyfartaledd (Ebrill 2019) oedd 5.9 diwrnod y gweithiwr y flwyddyn, neu golli 2.6% o amser gwaith; sef yr isaf a gofnodwyd erioed gan yr Arolwg CIPD. Cofnododd cymharydd lleol, Cyngor Gwynedd, 8.72 o ddyddiau yn 2017/18 (Ebrill-Mawrth).

Mae Cyfradd Absenoldeb Salwch Prifysgol Bangor yn 2018/19, sef **5.47 diwrnod**, yn cyfateb i golli **2.51%** o amser gwaith[9] oherwydd absenoldeb salwch. Y gyfradd yn 2017/18 oedd **2.48%**.




Yn 2018/19 cadarnhawyd 80.21% (6,988 o ddyddiau gwaith, addaswyd ar gyfer CALl) o holl absenoldebau salwch gan dystysgrif meddyg, ac roedd y gweddill, sef 19.79% (1,724 o ddyddiau gwaith, addaswyd ar gyfer FTE), yn rhai hunan-ardystio.

Roedd absenoldebau tymor hir, mwy nag 20 diwrnod, yn gyfrifol am **64%** (5,573 diwrnod gwaith o absenoldeb, wedi ei addasu ar gyfer CALl) o'r holl ddyddiau o absenoldeb y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2018/19, gan ddangos cynnydd o 1.6% ar gyfanswm 2017/18.

| Canran absenoldeb oherwydd salwch hirdymor | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 |
| Bangor | 63%* | 61.9% | 65.6% | 63% | 64% |
| Sector | 49.6% | 52.4% | 53.3% | 52.2% | 54.6% |

** Tan 2015/16 defnyddiodd Prifysgol Bangor flynyddoedd calendr, felly 2014/15 = 2014.*

- **% STAFF A RODDODD WYBOD AM ABSENOLDEB SALWCH**

Bu gostyngiad yn nifer y staff a roddodd wybod am absenoldeb salwch yn 2018/19.

Rhoddodd **591 aelod staff** wybod am absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn, mae hyn yn cyfateb i oddeutu **28.91%** o staff.

Yn 2017/18 y gyfradd oedd **29.97%** a **30.8%** yn 2016/17.

- **TABL ABSENOLDEB SALWCH MEINCNOD (UCEA)**

Mae'r adran hon, a gymerwyd o adroddiad meincnod UCEA **2017/18**, yn darparu gwybodaeth ar sut mae Prifysgol Bangor yn cymharu â'r sector cyfan ac ag is-set prifysgolion sy'n rhannu'r un nodweddion (**Cyn-92**) a maint (**bach**). Mae UCEA yn diffinio sefydliad fel un "bach" os oes ganddo lai na 2000 o weithwyr. Mae 13 sefydliad yn yr un 'is-set' â Phrifysgol Bangor.

Sylwer fod yr Adroddiad UCEA **flwyddyn ar ôl** ac felly mae data Prifysgol Bangor ar gyfer **2017/18**.

| **ADRODDIAD UCEA 2017/18** | | Holl sefydliadau AU (101) | | Sefydliadau AU bach Cyn-92 (13) | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mesur (CALl) | Bangor (PB) | Meincnod | Safle PB | Meincnod | Safle PB |
| **Cyfartaledd dyddiau gwaith a gollwyd** (dyddiau) | 5.4 | 6.0 | 33 | 5.5 | 10 |
| **% dyddiau gwaith a gollwyd** | 2.5% | 2.7% | 34 | 2.5% | 10 |
| **Dyddiau gwaith tymor byr a chanolig a gollwyd** (dyddiau) | 2.0 | 2.9 | 10 | 2.7 | 3 |
| **% absenoldeb salwch hir dymor** | 63.0% | 52.2% | 91 | 50.5% | 13 |

Mae'r canlynol yn grynodeb achos absenoldeb salwch ar gyfer **2017/18**, fel y darparwyd gan adroddiad meincnod UCEA.

[8] Seiliedig ar 1591.5 FTE ar gyfartaledd yn 2018/19

[9] Yn seiliedig ar flwyddyn waith o 260.715 diwrnod gwaith ar gyfartaledd

| Pob Absenoldeb Salwch (tymor byr, canolig a hir) | | | |
|---|---|---|---|
| **Categori Absenoldeb** | **PB** | Pawb (101) | Sefydliad AU bach Cyn-92 |
| **RESP** - Asthma a phroblemau eraill ar y frest/anadlol gan gynnwys niwmonia, broncitis, pliwrisi | 3.9% | 4.1% | 4.0% |
| **CNCR** - Canserau a thiwmorau (Tiwmorau anfalaen a malaen, canserau) | 3.4% | 3.6% | 2.7% |
| **COLD** - Annwyd, peswch, ffliw | 8.6% | 12.9% | 12.2% |
| **DEGP** - Diabetes a phroblemau endocrin/chwarennol eraill (e.e. diabetes, thyroid, metabolig) | 0.2% | 0.3% | 0.5% |
| **ENTD** - Problemau llygaid, clust, trwyn, gwddf a deintyddol | 7.2% | 3.5% | 3.1% |
| **GNIT** - Anhwylderau cenhedlol-droethol a gynaecolegol, ac eithrio beichiogrwydd | 2.8% | 2.0% | 1.8% |
| **MIGR** - Cur pen, meigryn a'r system niwrolegol/nerfol | 3.4% | 3.7% | 2.8% |
| **HEBL** - Anhwylderau'r galon, cylchrediad y gwaed a gwaed | 8.4% | 2.6% | 2.6% |
| **OPER** - Llawdriniaeth/adferiad/apwyntiad meddygol * | 0.0% | 7.8% | 8.3% |
| **INBP** - Anaf, llosgiadau a gwenwyno | 4.0% | 3.7% | 3.3% |
| **MNTL** - Iechyd meddwl gan gynnwys blinder, gwendid nerfol, camddefnyddio alcohol/cyffuriau | 32.9% | 24.4% | 21.9% |
| **MUSC** - Cyhyrysgerbydol, yn cynnwys problemau cefn/gwddf, twnnel y carpal, tendonitis | 14.9% | 11.5% | 14.6% |
| **INFC** - Clefydau heintus eraill (e.e. eryr) | 0.8% | 1.9% | 1.5% |
| **PREG** - Anhwylderau cysylltiedig â beichiogrwydd | 0.8% | 1.0% | 0.9% |
| **SKIN** - Anhwylderau croen | 1.7% | 0.5% | 0.6% |
| **STMC** - Problemau stumog / treulio / gastroberfeddol (e.e. poen yn yr abdomen, gastroenteritis, chwydu, dolur rhydd) | 5.4% | 7.8% | 6.7% |
| **OTHR** - Achosion hysbys eraill nad ydynt yn dod dan y categorïau UCEA | 1.7% | 4.7% | 5.0% |
| **UNKN** - Achosion anhysbys/heb eu nodi ** | 0.0% | 4.0% | 7.6% |

** Nid yw Prifysgol Bangor yn defnyddio'r categori hwn. Defnyddir y categori salwch/cyflwr ei hun ac nid adferiad ar ôl llawdriniaeth.*

***Gwneir ymdrech i sicrhau bod data Prifysgol Bangor yn cyfeirio at salwch neu gyflwr gwirioneddol a pheidio â defnyddio 'anhysbys'.*

## • CYFNODAU O ABSENOLDEB TYMOR HIR

Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfanswm cyfnodau absenoldeb yr holl achosion o salwch tymor hir a ddaeth i ben yn 2018/19, o'i gymharu â 2017/18, 2016/17 a 2015/16.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol gellir gweld bod y mwyafrif o absenoldebau (tymor hir), 66%, wedi dod i ben o fewn cyfnod o 2 fis.


| Absenoldebau hirach nag 20 diwrnod a ddaeth i ben yn 2018/19 (cymharydd 2017/18, 2016/17 a 2015/16) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfnod absenoldeb mewn misoedd | Nifer achosion 2015/16 | Nifer achosion 2016/17 | Nifer achosion 2017/18 | Nifer achosion 2018/19 |
| ≤2 | 47 | 47 | 43 | 67 |
| ≤3 | 19 | 16 | 18 | 8 |
| ≤4 | 12 | 7 | 7 | 6 |
| ≤5 | 6 | 7 | 7 | 7 |
| ≤6 | 3 | 6 | 3 | 9 |
| ≤7 | 0 | 1 | 5 | 2 |
| ≤8 | 0 | 2 | 0 | 2 |
| ≤9 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| ≤10 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| ≤11 | 1 | 1 | 1 | 0 |
| ≤12 | 0 | 0 | 0 | 0 |


## • ACHOSION ABSENOLDEB SALWCH

**Sylwer:** Mae grwpiau achosion yn cyfeirio at absenoldebau a ardystiwyd gan feddyg yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys achosion am absenoldeb hunan-ardystiedig.


Unwaith eto gwelir mai salwch seicolegol ac achosion cyhyrysgerbydol (poenau cefn, cymalau a thorri esgyrn) sy'n gyfrifol am y ganran fwyaf o absenoldebau.

Dyma ddosbarthiad **y dyddiau a gollwyd** ar gyfer y prif gategorïau achosion absenoldeb:




Mae achosion absenoldebau hir dymor (niferoedd / digwyddiadau) fel a ganlyn:




- **COLEGAU A GWASANAETHAU PROFFESIYNOL**

Mae'r tabl canlynol yn nodi 'Dyddiau Cyfartalog' absenoldeb salwch fesul CALl pob Coleg a Gwasanaeth Proffesiynol, o'i gymharu â chyfartaledd y brifysgol.

| **Coleg/Gwasanaeth Proffesiynol*** (*ar ddechrau 2018/19*) | **CYFRADD** | **CYFRADD ac eithrio** tymor hir |
|---|---|---|
| Y Brifysgol | 5.47 | 1.97 |
| Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes | 4.84 | 0.70 |
| Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg | 1.87 | 0.94 |
| Gwyddorau Dynol | 4.45 | 0.88 |
| Gwasanaethau Masnachol | 3.89 | 2.3 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 9.05 | 3.6 |
| Gwasanaethau Cyllid ac Ymchwil | 8.39 | 4.2 |
| Marchnata, Recriwtio a Chyfathrebu | 8.23 | 3.6 |
| Gwasanaethau Myfyrwyr | 12.6 | 4.27 |
| Canolfan Bedwyr | 2.49 | 2.49 |
| Gwasanaethau TG | 3.82 | 3.11 |
| Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau | 8.14 | 3.86 |
| Canolfan Cymraeg i Oedolion Gog. Cymru | 1.99 | 1.99 |
| Celfyddydau Pontio | 6.21 | 2.85 |
| Gwasanaethau Eiddo a Champws | 10.73 | 3.01 |
| Undeb y Myfyrwyr | 4.24 | 3.39 |

***Sylwer:*** *Dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r brif gyfradd Dyddiau/CALl yn achos adrannau llai o faint oherwydd gall absenoldebau hirdymor ychydig iawn o staff effeithio ar yr ystadegau. Er mwyn ein helpu i ddeall, mae ail golofn wedi'i hychwanegu sy'n hepgor absenoldebau hirdymor.*

- **CADW GOLWG AR IECHYD**

Yn ystod 2018/19 cafodd oddeutu **125** aelod staff arolygon iechyd gan arbenigwyr i gadarnhau nad oedd eu gwaith yn niweidio eu hiechyd.

Rhoddir arolwg, o wahanol fathau, i staff os ydynt yn defnyddio offer sy'n dirgrynu ac sy'n agored i lefelau sŵn uchel iawn yn rheolaidd, ac i rai gwyddonwyr ymchwil, cemegwyr a staff technegol, gweithwyr sydd ar shifftiau, gyrwyr sydd ar gontractau ac arbenigwyr trin anifeiliaid.

Ni nodwyd unrhyw ganlyniadau a oedd yn cael effaith niweidiol ar iechyd yn 2018/19.

Darperir Arolygon Iechyd yn bennaf i gadarnhau nad yw rhai risgiau yn y gwaith yn cael effaith andwyol ar iechyd staff. Mae budd ychwanegol i aelodau staff hefyd oherwydd gall yr arolygon dynnu sylw at faterion iechyd mwy cyffredinol nad ydynt o reidrwydd yn gysylltiedig â'u gwaith, fel pwysedd gwaed uchel, a chyfeiriwyd nifer o staff at eu meddygon teulu eu hunain o ganlyniad i gadw golwg fel hyn ar eu hiechyd.


## 7. LARYMAU TÂN YN CANU

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
| --- | --- |

Mae ystâd y brifysgol yn cynnwys dros gant o adeiladau ar draws nifer o safleoedd. Gwarchodir mwyafrif yr adeiladau hyn gan systemau canfod tân a larwm awtomatig gyda thua 8,000 o synwyryddion mwg/gwres a channoedd o bwyntiau seinio larwm wedi'u gosod fel rhan o'r systemau hyn.


Yn ystod 2018/19 cafwyd **96** o achosion o larymau tân yn seinio yn adeiladau'r brifysgol, gostyngiad o **3%** ar y 99 yn 2017/18.

Larymau Tân yn Canu 2009 - 18/19




Galwyd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r brifysgol **22** o weithiau, cynnydd bychan ar y 21 yn 17/18. Roedd **21** o'r galwadau hyn *(19 yn 17/18)* yn rhai i neuaddau preswyl rhwng 8yn a 8yb.

Gellir rhannu'r cyfanswm hwn (96) i ddynodi'r nifer o weithiau y canodd y larymau yn yr adeiladau preswyl a'r adeiladau academaidd/gweinyddol sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o ystâd y brifysgol.





Yn 2018/19 bu cynnydd bychan yn y nifer o weithiau y seiniwyd larwm tân mewn adeiladau academaidd a gweinyddol i **44** o 40 (17/18). Bu gostyngiad unwaith yn rhagor yn nifer yr achosion o ganu larymau tân yn y neuaddau preswyl i **52** o 59 (17/18) a 65 (16/17).

Cyfradd achosion seinio larymau tân /1000 o ganfodyddion

| Ystâd | 18/19 | Tuedd |
| --- | --- | --- |
| Neuaddau Preswyl[10] | 11/1000 | I lawr |
| Academaidd a Gweinyddol[11] | 13.5/1000 | I fyny |

Larymau tân yn canu fesul 1000 o Ystafelloedd Gwely[12]




| | 09 | 10/11 | 11/12 | 12/13 | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| PB | 46 | 35 | 32 | 30 | 35 | 33 | 25 | 22 | 20 | 17.6 |
| Sector | 87 | 95 | 96 | Dim data ar gael | | | | | 72 | |

[10] Yn seiliedig ar 4736 o synwyryddion mewn neuaddau
[11] Yn seiliedig ar 3264 o synwyryddion mewn adeiladau academaidd

[12] Yn seiliedig ar 2960 o ystafelloedd gwely. Nid oedd unrhyw ddata'r Sector ar gael rhwng 2012 - 2016

- **TANAU**

Bu **un** tân yn 2018/19 yn Pontio. Roedd hyn o ganlyniad i gontractwr yn gwneud 'gwaith poeth' y tu allan i'r adeilad, ar Lefel 5. Roedd y 'gwaith poeth' yn ymwneud â defnyddio tors fflam nwy propan ar gyfer trwsio/addasu'r to.

Achosodd y 'gwaith poeth' i'r deunyddiau toi orboethi nes mynd ar dân. Ceisiodd y contractwr ddiffodd y fflamau ond roedd mwg wedi mynd i mewn i'r adeilad. Yn ogystal, oherwydd y gallai'r fflamau fod wedi ymledu a chael eu 'cuddio' o fewn yr adeiladwaith, ni ellid gadael pobl yn ôl i adeilad Pontio nes bod y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi gwneud gwiriadau priodol.

Achos y digwyddiad hwn oedd methiant wrth wneud y gwaith poeth a threfniadau is-gontractwyr. Roedd y gwaith poeth, ar y pryd, yn cael ei reoli gan Brif Gontractwr adeiladu Pontio ac nid yn uniongyrchol gan y brifysgol.

Yn ogystal â'r digwyddiad yn Pontio, cafwyd hefyd nifer o ddigwyddiadau a allai fod wedi achosi tân. Y diffiniad o achosion o'r math hwn yw rhai lle ceir 'mwg yn unig, heb fflamau, a allai neu na allai achosi difrod'. Roedd y rhan fwyaf o'r rheiny'n ymwneud â choginio neu ysmygu (ni caniateir) yn y neuaddau preswyl.

## 8. HAWLIADAU SIFIL (SY'N YMWNEUD AG IECHYD A DIOGELWCH)

Yn 2018/19 cafwyd **dau** Hawliad Atebolrwydd Cyflogwr, yn dilyn anafiadau a gofnodwyd yn y gwaith, ac **un** Hawliad Atebolrwydd Cyhoeddus am anaf yr honnir iddo gael ei achosi wrth ddefnyddio offer chwaraeon.

## 9. YSTADEGAU'R WEFAN

Yn 2018/19 edrychwyd ar **24,442** o dudalennau unigol ar wefan Iechyd a Diogelwch, ac edrychwyd ar **32,749** o dudalennau i gyd. O'r rhain, y pum tudalen fwyaf poblogaidd yr ymwelwyd â hwy oedd:

- Tudalen Gartref Iechyd a Diogelwch
- Lles
- Cyswllt A-Z
- Asesu Risg
- Cyfrifianellau Laser

**Diwedd.**